
# Sgrifennu

## Elinor Wyn Reynolds




Does gen i ddim atebion i sut y mae sgrifennu. Sori. Achos mae pawb yn wahanol – diolch byth. Ac mae sgrifennu'n debyg i hud a lledrith. Yn y ffilm *Shakespeare In Love* (1998), pan holir y cwestiwn beth sy'n mynd i ddigwydd, sut y mae pethau am orffen? Yr ateb yw, 'I don't know, it's a mystery.' Wel cweit. Allaf i ddim wir ag esbonio sut y mae sgrifennu'n digwydd, mae jyst yn! Beth sydd gen i yma yw rhai cynghorion yn seiliedig ar fy mhrofiad i o sgrifennu dros gyfnod gweddol hir. Sdim rhaid ichi wrando ar air, sdim rhaid ichi 'nghredu fi, ond wel, dyma beth sydd gen i i'w ddweud, mae'r gweddill lan i chi.

Roedd gen i ryw fath o syniad y licsen i fod yn awdur o ryw fath er pan o'n i'n fach, ond do'n i ddim yn gwybod pa fath, o'n i jyst yn lico'r syniad. Wel, mae hynny'n rhywle i gychwyn, sbo. O'n i'n lico darllen, sy wastad yn help, ac mi o'n i'n lico diddanu pobl gyda stori dda, o'n i hefyd yn lico gwneud i bobl chwerthin. Ond dydy'r uchod ddim yn angenrheidiol i fod yn sgrifennwr chwaith. Sdim un ffordd iawn i fod yn sgrifennwr. A dweud y gwir, wnes i ddim lot o ddim am y busnes sgrifennu 'ma 'go iawn' am flynyddoedd – degawdau hyd yn oed – dim ond rhyw whare ambythdi . . . wy'n credu nad o'n i'n barod (ddim yn siŵr os ydw i'n barod o hyd a bod yn onest), ac mae hynny'n hollol iawn. Ydy, mae'n hollol iawn hefyd os ydych chi am fod yn sgrifennwr a'ch bod chi'n sgrifennu braidd dim, mae'r ffaith eich bod chi *am* fod yn sgrifennwr yn gychwyn da.

Reiti-ho, ble ddechreuwn ni?

**Cadw llyfr nodiadau**

Fy nghyngor cyntaf ymarferol i unrhyw un sydd o ddifri am sgrifennu yw: prynwch lyfr nodiadau, un digon bach i'w roi yn eich bag neu yn eich poced, cadwch e gyda chi a defnyddiwch e. Defnyddiwch e i gofnodi pob syniad sy'n hwylio heibio'ch llygaid chi, sdim ots pa mor dwp neu ddiddim y mae'n ymddangos; pob peth welwch chi, pob peth glywch chi, sy'n gwneud i chi feddwl y gallech sgrifennu amdano. Arogleuon, blasau, pethau annelwig, pethau nad ydyn nhw'n gwneud synnwyr ichi hyd yn oed. Cofnodwch ddyfyniadau da, hanner brawddegau a glywch chi ar y stryd, sgraps o sgyrsiau, darnau o fywyd. Rhowch nhw yn y llyfr nodiadau, a does dim rhaid bod yr hyn sgrifennwch chi'n gwneud synnwyr, hyd yn oed os mai dim ond un gair yw e, cofnodwch e – achos wy'n addo un peth i chi, os na wnewch chi ei sgrifennu i lawr, mi anghofiwch chi amdano a ddaw'r syniad hwnnw fyth yn ei ôl. Iawn, felly mae gennych chi eich llyfr nodiadau.

**Gweld y byd drwy lygaid awdur**

Cofiwch mai'r ffynhonnell orau am bob dim o ran eich sgrifennu chi yw chi eich hun. Ffact. Achos drwyddoch chi eich hun y gwelwch chi'r byd a phrofi pethau, a dim ond chi sy'n gwybod sut y mae hynny'n teimlo. Prif fwriad llenyddiaeth yw i ddysgu rhywbeth, gwneud i bobl beidio â theimlo'n unig, i wneud y cyswllt dynol a gwybod fod yna bobl eraill yn y byd a'u bod nhw wedi profi'r un teimladau. Felly, peidiwch ag anghofio darllen gwaith pobl eraill hefyd er mwyn deall a gwybod nad ydych chi ar eich pen eich hun. Drwy wneud hynny hefyd, fe ddewch i weld beth sy'n sgrifennu effeithiol (a beth sydd ddim cystal) a hefyd fe ddowch i hoffi rhai lleisiau'n fwy na'i gilydd, achos mae'n bwysig ichi ddod i wybod a deall pa fath o sgrifennu sy'n atseinio gyda chi, yn canu yn eich calon a thanio'ch enaid chi. Os yw'n canu gyda chi, yna mae siawns go lew y bydd yn gwneud yr un fath gydag eraill. Cofiwch, mae'n bwysig eich bod chi'n darllen pethau nad ydyn nhw'n gwneud hynny hefyd, dim ond er mwyn ichi wybod beth sydd *ddim* yn gweithio i chi fel darllenydd. Achos mae yna ddau yn y berthynas symbiotig o greu, sef y crëwr a'i gynulleidfa. Chi a nhw. Sdim ots am neb arall. Ac mae'n hynod debygol fod yna gynulleidfa ar gael allan yn fan'na ar gyfer eich gwaith chi, ond ddim pawb efallai, ac mae hynny'n hollol iawn hefyd. Fel sgrifennwr, cofiwch fod gennych chi'r hawl i ddwyn hefyd, ddim dwyn syniad cyfan efallai, ond yn bendant i gael eich dylanwadu gan bethau a sgrifenwyr eraill. Eich amcan eithaf yw gwreiddioldeb wrth gwrs, ond weithiau mae angen help arnoch chi. Bryd hynny, mae bod yn bioden neu'n dipyn o leidr yn hollol dderbyniol.

**Golwg wahanol**

Nawr, mi ddyweden i, fel awdur, y dylech fod yn dysgu edrych ar y byd mewn ffordd wahanol. Dylech chi fod yn sefyll rhyw fymryn hyd braich o bob dim '[to] cast a cold eye / on life, / on death,' fel y dywedodd y bardd W. B. Yeats (Yn Albright 1991, t. 376). Nid nad ydych chi'n teimlo pethau ac yn troi'n robot dideimlad ond eich bod yn medru gweld gwerth creadigol ymhob profiad mewn ffordd sy'n anelu at fath o wrthrychedd, a'i ddefnyddio nes ymlaen wrth gwrs. A hyd yn oed yn ystod eich oriau gwaethaf (a gorau), fod yna ddarn bychan bach ohonoch sy'n medru adnabod a deall fod yma bethau i sgrifennu yn eu cylch, darn bychan o iâ yn y galon efallai? Mae'n bosib na fyddwch chi'n sgrifennu amdano'n syth, efallai y bydd yn aros gyda chi am hydoedd ac mae hynny'n hollol iawn hefyd. Mae'n rhaid eich bod chi'n gwneud yr hyn sy'n iawn i *chi* o ran y weithred o sgrifennu a phryd y daw'r amser i sgrifennu.

Mae colofn wythnosol yn *The Guardian* sy'n dwyn y teitl 'This much I know'. Bob wythnos wy'n darllen i weld a oes yna bethau sy'n cael eu dweud a allai fod o ddefnydd i fi yn fy mywyd, rhyw wersi y gallaf i eu dysgu. Y pethau sy'n atseinio eto, y pethau sy'n gwneud i ni deimlo nad ydyn ni ar ein pennau ein hunain. Weithiau, wy'n teimlo mai dyna yw sgrifennu, dweud wrth bobl, *this much I know*. Achos yn y bôn dim ond dysgu oddi wrth ein gilydd yr ydyn ni yn y bywyd hwn. Mae gennych chi lais bob un, yr un sy'n dod allan o'ch ceg wrth gwrs ond hefyd yr un sy'n bodoli yn eich pen, y fonolog fewnol, sy'n mynegi'r teimladau a'r meddyliau dyfnaf.

**Peidio ag anobeithio**
Wrth gwrs efallai y bydd yn cymryd ychydig o amser i chi ddod o hyd i'ch llais unigryw chi ac mae hynny'n iawn hefyd; yn y cyfamser, dylech chi arbrofi. Arbrofwch gyda phob math o arddulliau, pob math o leisiau, pob math o *genres*. Fel sgrifennwr, mae gennych chi'r hawl i fethu, ond yr unig ffordd y gwnewch chi hynny yw drwy roi siot arni . . . a methu . . . a thrio eto . . . a methu . . .  Mae hynny'n hollol iawn hefyd. Gaf i gynnig hefyd bod peidio ag anobeithio yn rhywbeth pwysig i'w wneud. Ond, mae gwybod pryd i roi'r gorau i rywbeth os nad yw'n gweithio yn llawn mor bwysig. Peidiwch â thaflu pethau i ffwrdd yn llwyr, rhowch nhw yn y drôr (neu mewn ffolder ar eich cyfrifiadur), efallai y daw amser i'r peth hwnnw nad yw'n gweithio maes o law . . . neu efallai ddim. Ond mae hynny'n hollol iawn hefyd. O, ac mae mynd am dro yn medru helpu os ydych chi'n sownd mewn cors greadigol. Os ydych chi'n styc, ewch am dro. Mi ddywedodd y bargyfreithiwr Mark Mansfield KC ei fod yn mynd am dro os oedd ganddo achos llys dyrys i'w ddatrys, po fwyaf anodd oedd yr achos, pellaf y cerddai. Mae cerdded yn helpu gyda sgrifennu – y symud corfforol mecanyddol wrth i'r ymennydd danio a thasgu i bob cyfeiriad. Ffact arall.

**Canfod llais**
Beth pe bawn i'n newid y dywediad; 'rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar' rhyw fymryn i 'rhydd i bawb ei *lais* ac i bob *llais* ei lafar'? Mae gan bob un ohonom ni lais, a hwnnw'n un sy'n haeddu cael ei glywed. Weithiau, fel awduron, mae'n dda i ni atgoffa ein hunain o hynny. Yn y byd geiriau hynod gystadleuol mae'n hawdd i ni, fel pobl sy'n honni ein bod ni'n sgrifenwyr, feddwl, 'Pwy fyddai eisiau clywed fy llais i?' Ac yna dewi. Efallai mai'r calla dawo, ond nid yn yr achos hwn. Mae angen eich llais chi ar y byd. Cofiwch. Ac os nad chi, yna pwy? O ddifri.

Mi ddywedodd y danbaid-fendigaid Nora Ephron, 'Everything is copy' (2006, t. 149). A dweud y gwir, ei mam ddywedodd hynny wrthi, ac mi gariodd hwnnw o gwmpas gyda hi fel mantra; wy'n digwydd credu fod hynny'n wir. Mi allwch chi ddefnyddio'ch llais i adrodd eich profiad chi (efallai y credwch chi nad oes llawer wedi digwydd ichi ond rydych chi wedi profi pethau er hynny, wy'n addo, ac maen nhw'n bethau i'w rhannu). 'Gwnewch y pethau bychain,' medd Dewi Sant, wel sgrifennwch am y pethau bychain hefyd, achos yn y pethau bychain y mae'r pethau mwy, bob tro. Yn y gyfrol *Gwirionedd* (2019), wy'n sôn am weld chwilen yn croesi'r palmant o 'mlaen i, a'r troeon wy wedi meddwl am ble mae ei deulu bach e. Mewn man arall o'r gyfrol *Gwirionedd*, mae gen i sgwrs fer rhwng Wil Glass Eye a'i wraig yn yr ysbyty. Roedd y sgwrs honno'n wir bob gair, ac mi es i i feddwl am sut y collodd Wil druan ei lygad. Mae'r pethau bach yn medru esgor ar bethau mwy. Roedd Nora'n iawn.

Cymerodd sawl blwyddyn o fyw i fi sylweddoli fod gen i rywbeth i'w ddweud a bod dim rhaid i hwnnw fod yn rhywbeth 'mawr' o anghenraid. Yn y cyfamser, roeddwn i'n magu profiadau a chasglu pob mathau o bethau i fy mag awdur dychmygol, achos aiff dim yn wastraff (mi fyddwch chi wedi sgrifennu pob dim yn eich llyfr nodiadau, oni fyddwch chi). Ond efallai na fydd hynny'n wir i chi, efallai bod gennych eich llais eisoes, eich ffordd o

ddweud pethau'n barod. A dim ond un ffordd sydd i ddarganfod hynny . . . Yng ngeiriau'r brand sgidie rhedeg: *Just do it*. Sgrifennwch!

**Meddwl am ffurf**

Wy'n digwydd sgrifennu barddoniaeth a rhyddiaith, ac mae'r ddwy ffurf yn cyflawni pethau gwahanol i fi.

Fel bardd, mi o'n i am rannu'r teimlad hwnnw o fod yn ddynol, o wybod fy mod i wedi cyffwrdd â phobl eraill, o gysylltu'n uniongyrchol. I fi, mae perfformio fy ngherddi yn rhan o'r llais sydd gen i mewn barddoniaeth. Mae gallu gweld ymateb pobl i eiriau a syniadau'n hanfodol i fi, fel bardd ac fel bod dynol. Weithiau wy jyst am wneud i bobl chwerthin (sydd llawn mor bwysig â dwysbigo), am wneud iddyn nhw deimlo'n dda. Weithiau caf syniad doniol am rywbeth, ac yna bydd gweithio ar gerdd fel creu set byr stand-yp; rhaid i bopeth weithio a thynnu at ei gilydd fel cyfanwaith; rhaid i'r ergydion daro'n iawn gyda'r gynulleidfa mewn modd eithaf rhythmig. Mae gen i gerdd o'r enw 'Cwtsh', cerdd ddoniol, stand-yp yw hi, sy'n trafod y ffaith nad ydw i'n hoffi cwtsho. Mae'n gerdd i'w darllen allan yn uchel ac mae'r rhythm yn bwysig, e.e., 'achos chi jyst moyn troi, moyn osgoi, moyn ffoi ffor' arall heibio', neu,

> Pawb ishe cydio yndda i a 'ngwasgu'n gorfforol
> tra bydd fy enaid i'n gorwedd yn grimp, yn limp ar lawr, yn gasiwalti
> emosiynol. (Reynolds 2022, t. 56)

Mae'r geiriau a'r odl yn creu'r rhythm yn aml ac yn cario'r gerdd yn gyflym yn ei blaen. Mae cerddi o'r fath yn cario'r gynulleidfa gyda fi hefyd (gobeithio) ac mae hynny'n deimlad ardderchog. Weithiau, mi fyddaf i'n perfformio'r darn mewn sefyllfa gyhoeddus cyn fy mod i'n hollol hapus gydag e, dim ond er mwyn gweld sut yr oedd pobl eraill ag eneidiau'n ymateb; ydy'r gerdd yn siarad â phobl eraill yn yr un ystafell? Gallaf ei newid sawl gwaith. Does dim nad yw'n medru cael ei newid. Gyda fy ngherddi wy'n chwilio am y peth uniongyrchol hwnnw, y cyffyrddiad yn y fan a'r lle. Mae gen i gerddi mwy tawel, mwy myfyrgar hefyd ac maen nhw'n cyffwrdd â phobl mewn ffordd wahanol, gobeithio. Mi wn hefyd fod pobl yn darllen fy ngherddi mewn mannau tawel ar eu pennau eu hunain, ond mae hynny'n wahanol.

Fel sgrifennwr rhyddiaith, i fi mae'r profiad o sgrifennu nofel yn un gwahanol. Bryd hynny, wy'n meddwl 'mod i'n sgrifennu i mi fy hun ac i neb arall. Yr unig berson sydd yn rhaid i fi ei blesio yw fi. Weithiau wy'n eistedd mor agos at sgrin fy nghyfrifiadur nes fy mod i'n meddwl y byddaf i'n diflannu i mewn iddo, bod y berthynas rhyngof i a'r geiriau yn un sydd â llinyn bogeiliol rhyngom. O ran creu nofel, yr hyn ddywedwn i yw, cadwch lyfr nodiadau ar gyfer hynny hefyd, cofnodwch bob tro ymadrodd, pob hanner syniad bychan, achos wnewch chi ddim cadw'r cyfan oll yn eich pen a'i sgrifennu mewn un eisteddiad. Pan oeddwn i'n gweithio ar y gyfrol *Gwirionedd*, mi fyddwn i'n sgrifennu ychydig bach bob nos. Gyda'r dydd, mi fyddwn i'n nodi pethau yn fy llyfr bach nodiadau, rhag i mi eu hanghofio nhw. O dipyn i beth, mi dyfodd y gyfrol hyd nes i mi gyrraedd y terfyn. Dim ond wedyn y gwnes i ddechrau

ar y gwaith golygu. Roedd hi'n bwysig gorffen yn gyntaf. Os oes gennych chi stori i'w dweud, wel, daliwch ati i'w sgrifennu hi, ychydig bach ar y tro, ond yn aml. Efallai y byddwch chi ond yn sgrifennu paragraff mewn diwrnod. Mae hynny'n hollol iawn hefyd. Ond wy'n addo, os wnewch chi ddal ati i sgrifennu paragraff ar ben paragraff, yn gyson, gyson, a jyst dal ati – peidio â mynd yn ôl dros y gwaith yn ormodol – jyst dal ati hyd nes ichi gyrraedd y diwedd, hyd yn oed ar adegau pan na fyddwch chi'n teimlo fel gwneud hynny, fe ddewch chi i ben â'r gwaith.

**Derbyn barn ac adborth**

A phan rowch chi'r atalnod llawn olaf yn y ddogfen, cymerwch anadl ac yna edrych yn ôl dros y gwaith, a bydd y cyfan yn agor o'ch blaen fel cwilt clytwaith chwedlonol. *Dyna*'r adeg i chi ddechrau ar y golygu a ddim cyn hynny. Yna, wedi ichi wneud peth gwaith golygu ac ail-sgrifennu fel eich bod chi'n lled hapus gyda'r gwaith, gadewch i rywun yr ydych chi'n ymddiried ynddyn nhw i ddarllen a rhoi cyngor (tyner, gobeithio) ichi. Eich dewis chi yw derbyn y cyngor hwnnw ai peidio. Fe ddowch i arfer â'r mecanics o wneud hyn ond efallai na ddowch chi i'r arfer o roi eich enaid a'ch calon allan yn y byd mawr i bobl eraill. Ond dyna pam yr ydyn ni'n sgrifennu, er mwyn dysgu oddi wrth ein gilydd, er mwyn cael y cyswllt dynol, er mwyn teimlo'r cysylltiad, er mwyn teimlo'n llai unig, er mwyn teimlo'n fyw.

Felly bwriwch iddi, daliwch ati damaid ar y tro, ac yn y broses fe ddowch o hyd i'ch llais, mae hwnnw oddi mewn i chi. A'r gwir amdani yw, mai dim ond *chi* sydd â'r llais hwnnw. Ac mae hynny'n hollol iawn hefyd.

Mae **Elinor Wyn Reynolds** yn fardd, llenor a golygydd profiadol. Mae'n gyfrannwr cyson i'r sin farddol drwy gyfrwng sioeau, teithiau a chyfraniadau i flodeugerddi, ac enillodd ei chyfrol lawn gyntaf o farddoniaeth, *Anwyddoldeb* (2022), gategori barddoniaeth cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn yn 2023. Cyrhaeddodd *Gwirionedd* (2019) restr fer categori ffuglen Llyfr y Flwyddyn 2020.

**Cyfeiriadau**

Ephron, Nora. 2006. *I Feel Bad About My Neck*. New York: Doubleday.
Reynolds, Elinor Wyn. 2019. *Gwirionedd*. Caernarfon: Gwasg y Bwthyn.
Reynolds, Elinor Wyn. 2022. *Anwyddoldeb*. Cyhoeddiadau Barddas.
Yeats, W. B. 'Under Ben Bulben'. Yn: Albright, Daniel. gol. 1991. *W. B. Yeats: The Poems*. London: J. M. Dent & Sons.

*Cyhoeddiad Mynediad Agored: CC BY-SA 4.0*

*Mae'r testun hwn wedi'i ryddhau dan y drwydded* Creative Commons *BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth ar ffurf dolen i'r dudalen hon, ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler testun y drwydded am ragor o fanylion.*